# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.01.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie M. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Tudor Owen, Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd), Moira Duell-Parri (Swyddog Iechyd Amgylchedd ar gyfer cais 2) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Star Kebab:** Mr Mehmet Kabadayi a Mrs Elaine Kabadayi (Deilwyr y drwydded)

**Aelod lleol:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor. Maent yn gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu osod amodau ychwanegol ar y drwydded a hefyd lleihau'r oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub sylwadau ar y cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack y profodd Dinas Bangor yn ystod yr ail a'r drydydd wythnos ym Medi 2011, mewnlifiad o fyfyrwyr oedd yn dechrau neu'n dychwelyd i'r brifysgol yn ystod yr hyn a elwir yn "Wythnos y Glas". Mae economi nos Bangor yn atyniad mawr i'r myfyrwyr hyn, rhai ohonynt mor ifanc â 17 oed. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n ymwybodol bod yr awdurdod trwyddedu'n cymryd eu cyfrifoldebau tuag at y myfyrwyr hyn, a phawb sy'n mynychu eiddo trwyddedig, o ddifrif.

Nododd y cyflwynir y cais hwn yng ngoleuni'r uchod yn ogystal â'r dystiolaeth teledu cylch cyfyng perthnasol sy'n dangos esgeulustod bwriadol y "Star Kebab" o ran cydymffurfio â'r amodau a bennwyd gan yr awdurdod ar yr eiddo yn 2005 a thynnodd sylw'r is-bwyllgor at yr amodau hynny. Cafwyd tystiolaeth sy'n dangos nad oes gan yr eiddo ddigon o gynwysyddion

addas i storio ysbwriel a'r tomenni o ysbwriel y mae methu â chydymffurfio â'r amod hon yn y drwydded yn ei achosi. Yn ychwanegol, trwy gyfrwng "DVD", cyfeiriodd at y diffyg llwyr ar ran yr eiddo i gadw trefn ar bobl ar y stryd tu allan i'r eiddo yn ogystal â chadw llygaid ar y strydoedd cyfagos fel a bennwyd yn amodau'r drwydded. Nid oes ychwaith unrhyw arwydd o oruchwyliaeth tu allan i'r eiddo er mwyn atal pobl rhag bwyta ar y stryd yno. Rhoddodd fanylion am sawl digwyddiad o anhrefn yn yr eiddo sy'n dangos nad oes unrhyw un yn cadw trefn ar gwsmeriaid tu mewn i'r eiddo. Cyfeiriodd hefyd at 18 o droseddau a ddigwyddodd yn, neu'n gysylltiedig â'r eiddo ers 1 Ionawr 2010. Nododd nad yw'r eiddo erioed wedi cydymffurfio ac un o amodau'r drwydded sy'n nodi ei bod yn ofynnol iddynt roddi ffilm teledu cylch cyfyng i'r heddlu os gwneir cais am hynny. 'Roedd methiant yr eiddo i gydymffurfio â'r amod hon wedi bod yn rwystr i'r heddlu wrth iddynt ymchwilio i o leiaf chwech ymosodiad a digwyddiadau o ddifrod. Nododd mai aelod o staff yr eiddo a anafwyd ar ddau achlysur a bod un achos o ddifrod i'r eiddo ei hun. Cyfeiriodd at ymosodiad am 02.42 ar 23 Medi 2011 pryd y torrodd un o'r cwsmeriaid ei drwyn yn ystod oriau masnachu. Mewn perthynas â'r achos hwn, nododd ei fod yn ran o'r ymchwiliad ac iddo sylweddoli yr adeg hynny bod swyddogion yn cael anawsterau o ran cael gafael ar dystiolaeth teledu cylch cyfyng parthed troseddau a gyflawnwyd yn yr eiddo. Nododd, ar ôl ymchwilio i'r problemau blaenorol ac er mwyn cael tystiolaeth ar yr achlysur hwn, cafodd warant i fynd i mewn i'r eiddo a'i archwilio gan Lys yr Ynadon dan Adran 8 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. 'Roedd modd wedyn mynd i mewn i'r eiddo ac atafaelwyd gyriant caled y system teledu cylch cyfyng. Fe'i archwiliwyd gan staff uned ddelweddu Heddlu Gogledd Cymru a daeth i'r amlwg mai ond y saith diwrnod blaenorol oedd y system yn ei gofnodi bob tro, ac felly unwaith eto collwyd tystiolaeth o'r drosedd hwnnw a throseddau eraill.

Cyfeiriodd at y ffaith bod yr eiddo hefyd yn torri amodau'r drwydded o ran oriau masnachu, oherwydd y gwelwyd cwsmeriaid yn gadael yr eiddo gyda bwyd poeth am 03.40 ar 23 Hydref 2011 sef ar ôl yr amser cau.

Nododd mai'r eiddo hwn sydd â'r drwydded hwyraf i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos ym Mangor. 'Roedd hyn yn creu ei broblemau ei hun, nid oherwydd bod y drwydded yn un sy'n caniatau i'r eiddo agor yn hwyr ond oherwydd ei fod yn cyd-fynd ag oriau cau'r clybiau nos lleol. Pan fydd y clybiau hwyraf yn cau, yr eiddo hwn yw'r unig le sy'n parhau ar agor, a golygai'r monopoli hwn bod torfeydd o bobl sydd wedi bod yn yfed, yn ymgasglu mewn un siop fechan ac fe arweiniai hynny'n y pen draw at achosion o drosedd ac anhrefn. Gofynnodd am gael cynnwys yr amodau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, yn y drwydded, sef cyfyngu'r oriau agor, cyflogi goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, cadw cofrestr goruchwylwyr drysau, darpariaeth teledu cylch cyfyng a chyflwyno tystiolaeth teledu cylch cyfyng. Trafodwyd yr amodau gyda daliwr y drwydded ac 'roedd yn cytuno â hwy oddigerth yr amod sy'n cyfyngu ar yr oriau agor.

Nododd ymhellach, ers y cyflwynwyd y cais, bu i'r eiddo gyflogi goruchwylwyr ar y drysau ac ar y nosweithiau y cyflogwyd y goruchwylwyr hynny sylwyd bod y sefyllfa wedi gwella. Fodd bynnag, cafwyd dau ddigwyddiad o ymosodiad yn ystod Rhagfyr 2011 ac nid oedd goruchwyliaeth ar y drysau pan ddigwyddodd y digwyddiadau hynny.

Ymatebodd deilydd y drwydded i rai o'r pwyntiau a godwyd sef:-

- Y gofynnwyd i'r heddlu fynd â'r person a oedd yn creu trafferthion yn yr eiddo pan anafwyd aelod o'r staff oddi yno a'i arestio, ond ymddengys na ddigwyddodd hynny.
- Achoswyd difrod i ffenestr yr eiddo ar fwy nag un achlysur a chyflwynwyd tystiolaeth teledu cylch cyfyng i'r heddlu yn dilyn y digwyddiadau hynny.
- Y cafwyd problemau gyda'r system teledu cylch cyfyng ar adegau. Erbyn hyn, gosodwyd pump teledu cylch cyfyng o fewn yr eiddo a dau tu allan ac 'roedd yn obeithiol y byddai hynny'n gwella'r sefyllfa.

- Gan bod yr eiddo'n agored ar hyn o bryd tan 03.30 ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, ceir busnes gan fynychwyr rhai o'r tafarndai eraill gerllaw sydd wedi cau ychydig yn gynt.
- 'Roedd yn anfodlon derbyn yr amod i gau'r eiddo awr yn gynt oherwydd y byddai dyfodol rhai o'r staff yn y fantol. Gofynnodd am gael cadw at amodau'r drwydded bresennol am dyweder dri mis er gallu profi bod yna welliant yn y sefyllfa.
- Mai o ganlyniad i ffrae a ddechreuodd rhywle arall y digwyddodd y digwyddiad pan dorrwyd trwyn unigolyn.
- Bod yr eiddo'n gwerthu llawer o fwyd i fyfyrwyr.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**
**i) Addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol -**
**a) Bod yr oriau mae'r eiddo hwn ar agor ac wedi ei awdurdodi i gynnal gweithgareddau sy'n gofyn am drwydded yn cael eu cwtogi fel a ganlyn -**

- **Dydd Sul i ddydd Iau – 23.00 tan 02.00**
- **Dyddiau Gwener a Sadwrn – 23.00 tan 02.30**

**b) Bod yr eiddo'n cyflogi goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) o 23.00 hyd nes y byddai'r busnes yn cau bob nos Iau, Gwener a Sadwrn ac ar y dydd Sul cyn unrhyw ddydd Llun sy'n Ŵyl Banc, er mwyn cydymffurfio ag amodau trwydded yr eiddo.**
**c) Bod yr eiddo'n cadw cofrestr, a geir gan yr awdurdod lleol, o bob goruchwyliwr drws a gyflogir i weithio'n yr eiddo, a bydd y gofrestr honno ar gael i'w gweld ar gais gan unrhyw Swyddog Heddlu neu unrhyw un sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru neu unrhyw aelod awdurdodedig o'r awdurdod lleol.**
**ch) Bod yr eiddo'n gosod ac yn cynnal a chadw system teledu cylch cyfyng digidol llwyr weithredol fydd yn cofnodi pob rhan o'r eiddo sydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn cynnwys o leiaf un camera sy'n cofnodi nodweddion wynebau pawb sy'n dod i mewn i'r eiddo. Mae'n rhaid i'r system gofnodi a storio lluniau am o leiaf 31 diwrnod ar fformat fyddai'n caniatau adfer y lluniau ar gais.**
**d) Ar gais unrhyw Swyddog Heddlu neu unrhyw un arall sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, neu unrhyw aelod awdurdodedig o'r awdurdod lleol, bydd staff yr eiddo'n trosglwyddo'r delweddau digidol ar ffurf disg ynghyd ag unrhyw feddalwedd sy'n angenrheidiol i'w wylio, i'r swyddog neu'r cynrychiolydd sy'n gwneud cais amdanynt ar unwaith. Pe na byddai'n bosibl am ba bynnag reswm i drosglwyddo'r delweddau ar adeg y cais gwreiddiol, bydd yr eiddo'n danfon y delweddau o fewn 24 awr o dderbyn y cais, i swyddfa enwebedig yr awdurdod hwnnw, sef yn achos Heddlu Gogledd Cymru, Gorsaf Heddlu Bangor.**
**ii) Awgrymu wrth yr heddlu y dylent fonitro'r eiddo er sicrhau bod y system teledu cylch cyfyng yn gweithio.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – ROYAL OAK, LLANLLECHID

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Ar ran y Royal Oak, Llanllechid:** Mr John Coen a Mr Michael Witten (Cyfreithwyr ar ran yr ymgeiswyr) a Mrs Alison Jones (Goruchwyliwr Eiddo Penodedig)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran y Royal Oak, Llanllechid i wyro trwydded i ganiatau cerddoriaeth fyw a dawnsio o'r newydd ac i ymestyn yr oriau ar gyfer cerddoriaeth wedi ei recordio a'r gwerthiant o alcohol. Gofynnir am i bob gweithgaredd fod rhwng 11.00 a 23.00 dydd Llun i ddydd Mercher; rhwng 11.00 a 01.00 dydd Iau i ddydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 22.30 ar ddydd Sul. Nododd bod y rhybudd a ymddangosodd yn y wasg ac ar y safle yn cyfeirio at ymestyn yr oriau agor presennol yn ogystal ond nid yw'r ymgeisydd wedi cwblhau'r rhan perthnasol yn y ffurflen gais sef paragraff O ynglyn â hynny. Fodd bynnag, mae rhan 3 o'r ffurflen gais (gwyriad) yn cyfeirio at ymestyn yr oriau ac yn wyneb hynny 'roedd o'r farn y dylid ystyried paragraff O fel rhan o'r cais.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw sylwadau ar y cais. Fodd bynnag, 'roedd gan yr Adran Iechyd Amgylchedd amodau i'w cynnwys ar y drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- ii Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai
- vii Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd cyfreithiwr ar ran y Goruchwyliwr Eiddo Penodedig ei fod yn ymddiheuro na chwblhawyd paragraff O o'r cais ond iddo gael ei gynnwys yn rhan 3 o'r ffurflen gais. Cyfeiriodd at yr oriau a ganiatawyd ar y drwydded bresennol a rhoddodd fanylion am yr oriau y gofynnir amdanynt yn awr. Cadarnhaodd y gosodwyd system teledu cylch cyfyng ar yr eiddo. Nododd mai un o'r amodau ar y drwydded bresennol yw na chaniateir plant yn yr eiddo, ac 'roedd yn awyddus i ddileu'r amod hon o'r drwydded a gosod amod na chaniateir i blant fod yn yr eiddo ar ôl 22.00. Nododd ymhellach y lleolwyd siop gyferbyn â'r eiddo a'i bod yn cau'n ddyddiol am 19.00 ac oherwydd hynny, derbynnir ceisiadau gan blant i brynu nwyddau fel creision a diodydd ysgafn o'r dafarn.

Cyfeiriodd at y ffaith bod y Goruchwyliwr Eiddo Penodedig yn gyflogedig yn yr eiddo ers Awst 2009 a'i bod yn gyfarwydd a'r ardal a'r math o gwsmeriaid a fynychai'r eiddo. 'Roedd o'r farn bod yr eiddo'n cael ei redeg yn dda ac o safon uchel. Nododd nad oedd gan yr heddlu na'r trigolion cyfagos wrthwynebiad i'r cais. Rhoddodd fanylion am y gwahanol weithgareddau wythnosol a gynhelir yn yr eiddo. Cadarnhaodd nad oes bwriad i droi'r eiddo'n glwb nos. Mewn

perthynas â sylwadau'r Adran Iechyd Amgylchedd, deellir na fu i'r adran dderbyn cwynion am yr eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod hynny'n profi ei fod yn cael ei redeg yn dda. Os y darperir adloniant o fewn yr adeilad, yna fe sicrheir bod y gerddoriaeth y cael ei droi i lawr ac na amherir ar fwynderau trigolion y tai cyfagos. Gosdwyd arwyddion ger drysau'r eiddo yn gofyn i gwsmeriaid adael y lle'n ddistaw. Cyfeiriodd at y bedair amod oedd yr Adran Iechyd Amgylchedd yn awyddus i''w gosod ar y drwydded. Parthed yr amod gyntaf ynglyn â lefelau sŵn, 'roedd o'r farn ei bod yn ormodol oherwydd 'roedd y ffaith bod sŵn yn glywadwy mewn eiddo cyfagos ddim o reidrwydd yn golygu ei fod yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus. Cyfeiriodd hefyd at baragraffau perthnasol o Adran 102 o Ganllawiau'r Llywodraeth ar Drwyddedu a rhannau perthnasol o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor sy'n cyfeirio at ddiogelu trigolion yng nghymdogaeth yr eiddo. Fodd bynnag, 'roedd yn cytuno â'r ail amod sef bod drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, dyweder ar ôl 21.00. Parthed amodau 3 a 4, 'roedd o'r farn eu bod yn anghyfreithlon ac yn amhriodol gan eu bod yn gosod "cosb" am dorri'r amod cyntaf cyn i unrhyw dor-amod ddigwydd. 'Roeddynt yn clymu dwylo'r is-bwyllgor yn y dyfodol a ddylai ystyried unrhyw dor-amod ar sail yr amgylchiadau yr adeg hynny. Cyfeiriodd hefyd at y gost o osod dyfais i reoli sŵn.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd nad oes gan yr adran wrthwynebiad i'r cais ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am yr eiddo. Nododd, yr ymddengys o'r cais bod y math o adloniant yn newid i gerddoriaeth fyw sydd angen mwy o reolaeth gan y Goruchwyliwr Eiddo Penodedig. 'Roedd tai preswyl gerllaw'r eiddo ac yn wyneb hynny 'roedd o'r farn y dylid gosod yr amodau hyn er cyfarfod un o nodau ac amcanion y Ddeddf Trwyddedu. Nododd bod yr amod cyntaf yn un cyffredinol, lle y gallai'r ymgeisydd weithio tuag ato. 'Roedd angen rheolaeth mwy cadarn o safbwynt y lefel sŵn oherwydd lleoliad agos y tai a disgwylir i'r ffenestri a'r drysau fod ar gau. 'Roedd o'r farn bod amodau 1 a 2 yn ddilys. Ymatebodd i ddadl yr ymgeisydd bod tair deddf eisoes yn darparu ffyrdd o ddelio gyda unrhyw broblemau posibl. Mewn perthynas ag amodau 3 a 4, 'roedd y rhain yn sail i ymateb pan dderbynnir cwynion. Bwriad yr amodau hyn yw ceisio osgoi gorfod cynnal adolygiad yn gysylltiedig â'r eiddo.

Mewn perthynas â'r amod na chaniateir plant yn yr eiddo, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu yr ymddengys mai asiant yr ymgeisydd yn 2005 a ofynnodd am gael cynnwys yr amod hon ar y drwydded.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded y Royal Oak, Llanllechid fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cerddoriaeth fyw (paragraff E); Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F); Darpariaeth ar gyfer dawnsio (paragraff J); Cyfleusterau ar gyfer adloniant yn debyg i ddisgrifiad yr hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau I neu J (paragraff K) a gwerthu alcohol (paragraff M) fel a ganlyn –**

- **Dydd Llun i ddydd Mercher – rhwng 11.00 a 23.00 (fel ar y drwydded bresennol)**
- **Dydd Iau i ddydd Sadwrn – rhwng 11.00 a 01.00**
- **Dydd Sul – rhwng 12.00 a 22.30 (fel ar y drwydded bresennol)**

**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff O) fel a ganlyn -**

- **Dydd Llun i ddydd Mercher – rhwng 11.00 a 23.30 (fel ar y drwydded bresennol)**
- **Dydd Iau i ddydd Sadwrn – rhwng 11.00 a 01.30**
- **Dydd Sul – rhwng 12.00 a 23.00 (fel ar y drwydded bresennol)**

**c) Tynnu'r amod sy'n atal plant yn yr eiddo, o'r drwydded.**

**ch) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd –**
**i) Rhaid cadw lefel sŵn offerynnau cerdd a/neu systemau sain fel na ellir eu clywed tu fewn i unrhyw dŷ cyfagos (gyda ffenestri'r tŷ yn rhannol agored) yn ystod yr oriau canlynol –**

- **Llun i Sadwrn – rhwng 21.00 a 01.00**
- **Sul – rhwng 21.00 a 23.00**

(**Yr uchod i'w diwygio i gynnwys awr ychwanegol ar y dyddiau lle nodwyd fel rhan o'r drwydded)**
**Ar bob achlysur arall, ni chaniateir lefel sŵn wedi ei fesur tros unrhyw gyfnod 5 munud tu allan i dŷ cyfagos drwy ddefnydd y paramedr LAeq gan fwy na 5dB(A) uwchlaw'r lefel sŵn cefndir. I bwrpas yr amod hon, bydd y lefel sŵn cefndir i'w ddisgrifio drwy ddefnydd y paramedr LA90, T fel a ddiffinir yn Safon Prydeinig 4142:1997. Yn ogystal, bydd unrhyw fesur i sefydlu lefel y sŵn mewn LAeq 5 munud hefyd i ddilyn canllawiau'r safon.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgryniant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant heblaw i alluogi pobl i fynd a dod o'r eiddo.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.40pm